

**NORTH WALES  
HOUSING**  
**TAI GOGLEDD  
CYMRU**

# Adolygiad Blynyddol

2018/2019

## Cynnwys

<b>Gair o'r Gadair</b>	<b>3</b>
<b>Trosolwg o'r flwyddyn</b>	<b>4</b>
<b>Adeiladu cartrefi newydd</b>	<b>5</b>
<b>Mannau gwell i fyw</b>	<b>8</b>
<b>Cyfranogiad tenantiaid yn 2018/2019</b>	<b>11</b>
<b>Tai â Chymorth</b>	<b>17</b>
<b>Pobl Hŷn</b>	<b>20</b>
<b>Ein Pobl</b>	<b>23</b>
<b>Llywodraethiant</b>	<b>28</b>
<b>Ein perfformiad yn 2018/2019</b>	<b>30</b>
<b>Perfformiad Ariannol</b>	<b>31</b>



## Gair o'r Gadair

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn un dda iawn i TGC; ac rwy'n teimlo ein bod ni'n symud i'r cyfeiriad iawn ac yn gweld cynnydd da.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi addewid i adeiladu 20,000 o dai newydd yng Nghymru erbyn 2021 ac rydym am ei helpu i gyrraedd y targed yma. Fel rhan o'n Cynllun Corfforaethol rydym wedi ymrwymo i adeiladu 200 o dai newydd o safon erbyn 2021. Eleni rydym wedi cwblhau datblygiad 12 uned ym Mae Colwyn, ac wedi dechrau gwaith yng Ngerddi Canada yng Nghaergybi gyda mwy ar y gweill.

Mi wnaethon ni groesawu Jayne Owen atom fel Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau eleni. Mae Jayne yn gyfrifydd cymwysedig (CIPFA) gyda 30 mlynedd o brofiad yn y sector cyhoeddus. Croeso Jayne!

Mynychais, a siaradais yng Nghynhadledd Staff TGC eleni. Hon oedd y gynhadledd gyntaf mewn 3 blynedd ac roeddwn i'n falch iawn i fod yn rhan ohoni. Roedd yn braf rhoi wyneb i amryw o'r bobl rwyf wedi siarad gyda hwynt dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yn wych cyfarfod unwaith eto gyda thri o Sêr y Dyfodol. Siaradodd y tri am eu profiad dros y flwyddyn ddiwethaf; rwyf mor falch i'r rhaglen lwyddo cystal ac rwy'n edrych ymlaen at glywed gan y criw nesaf o Sêr y Dyfodol.

Hefyd, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch staff am eu gwaith caled dros y 12 mis diwethaf. Hoffwn hefyd ddiolch i aelodau ein bwrdd – maent yn dîm o unigolion ymroddedig sy'n rhoi o'u hamser yn wirfoddol i wasanaethu Tai Gogledd Cymru a sicrhau ein bod ni'n cyflawni ein hamcanion a'n haddewidion i denantiaid a phreswylwyr.

**Tom Murtha**  
Cadeirydd

## Trosolwg o'r flwyddyn

Croeso i Adolygiad Blynyddol eleni. Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur a llwyddiannus i Tai Gogledd Cymru. Roeddem yn hynod o falch i dderbyn 'Safonol' eto yn ein dyfarniad rheoleiddiol gan Lywodraeth Cymru yn Mehefin 2018, sy'n ein helpu i adeiladu ar ein gwytnwch busnes ac ariannol.

Cyflawniad allweddol eleni oedd cwblhau Nant Eirias, datblygiad yn Ffordd Abergele, Bae Colwyn. Y datblygiad 12 uned hwn oedd ein datblygiad rhent canolradd cyntaf, gan gynnig tai fforddiadwy i bobl mewn gwaith, neu sy'n gallu talu rhent heb gymorth ariannol.

Datblygiad cyffrous arall yn 2018/19 oedd dechrau'r gwaith ar safle Gerddi Canada yng Nghaergybi. Hwn yw'r diweddaraf o'n prosiectau adeiladu newydd gyda'r nod o ddod â thai fforddiadwy i'r ardal.

Diolch i Lywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Conwy a Chyngor Ynys Môn am eu cefnogaeth a'u cyllid, ni fyddai'r datblygiadau wedi gallu bwrw ymlaen hebddynt.



Un o'n pedwar amcan ein Cynllun Corfforaethol yw gwella'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu. Rhai o'r pethau yr ydym wedi'u gwneud eleni i gyflawni hyn yw cynnal adolygiad o ein adran cynnal a chadw, sefydlu arolwg boddhad tenantiaid yn ogystal ag arolwg STAR, sef arolwg Boddhad Tenantiaid cyffredinol. Rydym hefyd wedi datblygu Strategaeth Cyfranogiad Tenant, ac ymysg y prosiectau sydd wedi hybu ymgysylltu eleni y mae 'agor drysau i'r awyr agored' a 'phrosiect cymunedol Bus Stop'.

Ein nod yw gwneud cyfraniad cadarnhaol i fywydau preswylwyr a'r cymunedau lleol rydym yn eu gwasanaethu - yn yr adolygiad blynyddol hwn rydym yn cyflwyno rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn i chi ac yn dangos sut y mae ein gwaith wedi gwneud gwahaniaeth go iawn.

Mae ein staff yn allweddol i'n llwyddiant. Rydym eisiau hybu staff i edrych ar ôl eu hunain, ac mae ein Strategaeth Pobl a'n gweithgareddau iechyd a lles wedi helpu i yrru hynny yn ei flaen eleni. Roeddem yn falch iawn o dderbyn achrediad Arian Buddsoddwyr mewn Pobl.

Diolch i holl staff TGC ac aelodau'r bwrdd am eich ymroddiad a'ch gwaith caled drwy'r flwyddyn; heb eich help chi ac ein agwedd 'Un Tîm', ni fyddai dim o'n llwyddiannau wedi digwydd.

Rwy'n gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen yr Adolygiad Blynyddol hwn ac yn edrych yn ôl dros y flwyddyn. Mae'r dyfodol yn ddisglair ac edrychaf ymlaen i weld beth ddaw yn y flwyddyn nesaf.

**Helena Kirk**  
Prif Weithredwr

# Adeiladu cartrefi newydd



Mae tai fforddiadwy newydd yn dal yn uchel ar ein hagenda. Mae TGC yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i adeiladu mwy o dai fforddiadwy yng Nghymru. Fel rhan o amcanion ein Cynllun Corfforaethol rydym yn anelu at gynnig 200 o dai newydd o safon erbyn 2021.

## Cwblhau datblygiad Nant Eirias

**Cafodd prosiect gwerth £2.4 miliwn i adeiladu 12 o dai fforddiadwy newydd sbon ym Mae Colwyn ei gwblhau eleni.**

Cafodd 12 fflat un a dwy ystafell wely eu hadeiladu fel rhan o'r prosiect yn y bartneriaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynllun mewn lleoliad allweddol ac ar safle amlwg ar y ffordd i ganol dref Bae Colwyn o Barc Eirias ac o fewn pellter cerdded o'r dref. Mae'r tai ar gael ar rent canolradd, sy'n golygu eu bod wedi eu hanelu at bobl sydd mewn gwaith, neu sy'n medru talu'r rhent heb gymorth ariannol ond bydd y rhent yn llai na beth fyddent yn gorfod ei dalu am ddy tebyg yn yr ardal gan landlord preifat.

Mae'r tai newydd yn effeithlon o ran costau ynni - ystyriaeth allweddol o ariannu'r cynllun drwy Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru a Chyngor Conwy a'r Grant Tai Cymdeithasol.

Cafwyd sawl enghraifft o fudd cymunedol yn ystod yr adeiladu, gan gynnwys hyfforddiant lleol a chyfleoedd cyflogaeth.





## Datblygiad newydd yng Nghaergybi

Dechreuodd y gwaith ar ddatblygiad newydd yng Nghaergybi ym mis Mawrth 2019. Bydd Gerddi Canada, mewn partneriaeth â Chyngor Ynys Môn, yn creu 25 o gartrefi newydd yn yr ardal: deg fflat un ystafell wely a phymtheg o dai dwy ystafell wely.

Mae'r safle yn agos at siopau manwerthu, archfarchnadoedd, lle chwarae, ysgolion, trafnidiaeth leol ac amwynderau eraill.

Bydd tîm Datblygu mewnol Tai Gogledd Cymru yn rheoli'r prosiect, gan anelu at drosglwyddo'r goriadau i'r tai ym mis Mai 2020, gan gwblhau'n llawn ym mis Mawrth 2021.



# Mannau gwell i fyw

Mae er budd i ni yn ogystal â'n tenantiaid i wella ansawdd a diogelwch y cartrefi presennol. Mae gennym Dîm Gwaith Trwsio mewnol sy'n gwneud gwaith trwsio o ddydd i ddydd i gartrefi tenantiaid.





## Gwaith Gwella a Gosod wedi'i Gynllunio

Rhaid i Tai Gogledd Cymru gynnal ansawdd ein cartrefi yn unol â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), safon ansawdd genedlaethol ar gyfer cartrefi a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Wrth i'n cartrefi heneiddio efallai y bydd angen i ni ailosod neu wella eitemau fel ystafelloedd ymolchi, ceginau a gwydro dwbl i sicrhau eu bod yn cyrraedd y safon ofynnol.



*Yn 2018-2019 wnaethom fuddsoddi £1,745,353 mewn gwella ein cartrefi. Fe wnaethom ni osod:*

fffenestri  
a drysau  
newydd mewn  
**315**  
eiddo

**258**  
o ystafelloedd  
ymolchi

**16**  
cegin  
newydd



# Gwella cymdogaethau

Nod Tai Gogledd Cymru yw gwella cymunedau yn ogystal â'n cartrefi. Enghraifft o hyn yw gwella ardal chwarae Llandudno.

Mae Tai Gogledd Cymru a Cartrefi Conwy wedi dod ynghyd i weithio mewn partneriaeth er mwyn aiddatblygu'r safle ar Ystâd Tre Cwm i greu'r ardal chwarae, gan ddisodli'r hen iard chwarae.

Mae ardal chwarae Tre Cwm yn cynnwys tirlunio naturiol, rhodfa bren, llwybr synhwyrdd a mynydd coed. Dyluniwyd yr ardal gyfan i annog plant i chwarae yn yr awyr agored ac i fod yn fwy creadigol.

Mae ardaloedd chwarae naturiol yn dod yn fwy poblogaidd wrth iddynt ymgorffori gwahanol elfennau, fel bod y gofod yn asio â'r amgylchedd naturiol. Mae clogfeini, boncyffion coed a thwmpathau yn gwella sut mae meysydd chwarae'n edrych, yn ogystal â chynyddu'r cwmpas i blant fod yn fwy dychmygus wrth iddynt chwarae.





# Cyfranogiad tenantiaid yn 2018/2019

Mae rhoi llais i'n tenantiaid yn bwysig i ni a dyma sy'n ysgogi popeth a wnawn ar draws y sefydliad. Rydym yn ymrwymedig, drwy ein cynllun corfforaethol, i gynyddu cyfleoedd ymgysylltu, ac mae gennym hefyd Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid, sy'n llywio'r ffodd y byddwn yn ymgysylltu.

Yn ogystal â gwrando ar safbwyntiau, rydym hefyd yn gweithio gyda llawer o'n tenantiaid i ddarparu cyfleoedd iddynt ddatblygu eu sgiliau bywyd a chynyddu eu hyder. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe wnaethom gynnal nifer o weithgareddau a chyfleoedd a oedd yn galluogi i'r preswylwyr ymgysylltu â ni. Dyma rai o'r uchafbwyntiau.



Dw i'n teimlo'n fwy hyderus ac eisiau mynd allan fwy, yn hytrach nag aros mewn drwy'r amser. Mae gen i gyfweiliad wythnos nesaf i wneud gwaith gwirfoddol.

Karl

Paul

Dw i'n falch iawn fy mod wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau awyr agored, mae wedi bod yn braf rhoi cynnig ar bethau na fuaswn fel arfer yn eu gwneud, ac roedd yr hyfforddwyr yn gyfeillgar iawn. Diolch i TGC ac Iwan am drefnu hyn i gyd.



## Agor drysau i'r awyr agored

Nod y prosiect hwn yw darparu cyfleoedd i'n tenantiaid sy'n anweithgar yn economaidd ac ar incwm isel i allu cyfranogi mewn gweithgareddau awyr agored. Mae'r prosiect hwn hefyd yn ceisio cynorthwyo cyfranogwyr i ddod o hyd i swydd, yn ogystal â chyfleoedd gwirfoddoli yn y sector awyr agored.

Mae'r tenantiaid wedi cael cyfleoedd i fwynhau cerdded, mynydda dan do, canwio a beicio mynydd.

Yn ystod y prosiect hwn mae **28 o denantiaid wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau**. Mae'r cyfranogwyr wedi nodi gwelliannau i'w hiechyd a'u hyder ac maent wedi gwneud ffrindiau newydd.

## Panel Ymgynghorol Preswylwyr (PYP)

Mae'r PYP yn grŵp sy'n cynnwys preswylwyr Tai Gogledd Cymru ac mae ganddo gyfrifoldeb dros graffu ar ein gwasanaethau a'n perfformiad er mwyn sicrhau fod pob preswylwr yn derbyn y safon uchaf posib o wasanaeth.

Mae gan y Panel 9 aelod ac mae'n cwrdd bob mis, rhwng Bangor a Chyffordd Llandudno. **Mae'r aelodau'n helpu i bwysu am welliant ar draws ein gwasanaethau.**

Dros y flwyddyn mae'r panel wedi adolygu polisiau a gweithdrefnau, cwblhau'r Siarter Gofal Cwsmer, monitro mesurau perfformiad a chymryd rhan yn y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid.



## Grŵp Ymateb Cyntaf

Mae'r Grŵp Ymateb Cyntaf yn gronfa ddata o denantiaid sydd â diddordeb mewn gweithio fel 'darllenwyr' taflenni, ffurflenni, polisiau ac ati a darparu adborth hefyd. Dyma gyfle i'r rhai na allant ymrwymo i gyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd ddweud eu dweud gyda ni.

**Ar hyn o bryd mae gan y Grŵp Ymateb Cyntaf 32 o aelodau** ac roeddent yn rhan o'r meysydd gwaith canlynol yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

- System ateb galwadau ffôn Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Adolygu'r system ateb galwadau ffôn a gafodd ei ddatblygu i lansiad sgwrsio byw
- Adolygu Strategaeth ddrafft ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid
- Mae cylchlythyrau ac arolygon TPAS Cymru yn cael eu dosbarthu i aelodau

## Bus Stop

Mae Prosiect Bus Stop yn brosiect symudol i ddatblygu cymunedau mewn partneriaeth â Grŵp Cynefin, Cartrefi Conwy, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae'r prosiect yn cynnwys ystod eang o wasanaethau a chyfleodd, gan gynnwys gwybodaeth a chefnogaeth ar faterion yn ogystal â darparu cyfleodd ymgysylltu.

Mae prosiectau eleni wedi cynnwys Dinasyddiaeth a Diogelwch Ar Y Ffyrdd, yr Amgylchedd ac Ailgylchu a phrosiect lechyd a Lles a sesiynau celf a chrefft.





## Cystadlaethau tenantiaid

Rydym yn trefnu nifer o gystadlaethau dros y flwyddyn er mwyn helpu i annog ymgysylltiad â'n tenantiaid. Eleni rydym wedi cynnal cystadleuaeth 'Garddio' a chystadleuaeth 'Cymdogion Da'. Cymerodd anghenion cyffredinol a Thai â Chymorth fel Hosteli ran yn y cystadlaethau, gan ddarparu lefel da o ymgysylltiad.



## Grant Datblygiad Personol

Mae ein Grant Datblygiad Personol wedi cael ei ddatblygu er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau ariannol a allai atal ein tenantiaid rhag cyrchu addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

### Cawsom dau gais llwyddiannus yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

- Cais i dalu am gostau eitemau i gefnogi dechrau busnes gofal plant, gan gynnwys cwrs lefel 2 mewn glendid bwyd a ffioedd aelodaeth priodol
- Cais i dalu am gost llyfrau ar gyfer cwrs yng Ngholeg Menai

## Cronfa Gymunedol

Mae ein Cronfa Gymunedol wedi cael ei datblygu i ddarparu cyllid er mwyn cynorthwyo grwpiau gwirfoddol, cymunedol, hamdden neu breswyl.

Yn ystod y cyfnod adrodd dyfarnwyd grantiau bychain er mwyn helpu i dalu am gostau cyfarpar ar gyfer tîm pêl-droed ieuenctid lleol.

# Gwerth Cymdeithasol 2018–2019

Nid yw Tai Gogledd Cymru yn ymwneud â brics a mortar yn unig, mae hefyd yn ymwneud â'r hyn rydym yn ei roi yn ôl i'r gymuned. Mae hyn yn cael ei fesur fel 'gwerth cymdeithasol'

## Cyflogaeth a Hyfforddiant Employment and Training

Nifer preswylwyr sy'n ymgymryd â hyfforddiant neu addysg wedi ei ariannu gan TGC **28**

Number of residents undertaking training or education funded by NWH

Prentisiaethau TGC **1**

NWH Apprenticeships

Prosiect Agor Drysau i'r Awyr Agored **26** wedi cymryd rhan Participants

Opening Doors to the Outdoors Project

Nifer preswylwyr/defnyddwyr gwasanaeth fu'n ymwneud â grwpiau ymgynghori **242**

Number of residents/service users involved in consultation groups

## Cyfranogi Participation

Nifer aelwydydd tenantiaid sydd wedi derbyn cyngor ariannol gan TGC **356**

Number of tenant households provided with money advice by NWH

Cynllun Warden Ynni i denantiaid trwy geisiadau llwyddiannus am y Grant Gostyngiad Cartrefi Cynnes **£14280** cynhyrchwyd

Energy Warden Scheme generated for tenants through successful applications for the Warm Home Discount Grant

Staff sy'n derbyn cyflog byw **100%**

Staff paid the living wage

% cyflenwyr sy'n lleol i Gymru **61%**

% of suppliers who are local to Wales

% cyflenwyr nad ydynt yn Gymreig ond sydd â swyddfeydd yng Nghymru **16%**

% of suppliers who are not Welsh but have offices in Wales

## Cymuned Community

Uned gan Betsi Cadwaladr a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer goflla seibiant neu ryddhau o'r ysbyty **3** Defnyddir

Units used by Betsi Cadwaladr and Social Services for respite or hospital discharge

Arian a godwyd ar gyfer Elusen TGC - Create a Smile a Cuddle Cot ar gyfer Ysbyty Gwynedd yn 2017-19 **£3038**

Money raised for NWH Charity - Create a Smile & a Cuddle Cot for Ysbyty Gwynedd - 2017-19

O denantiaid ran ym Mhartneriaeth Gymunedol Bus Stop **204** Cymerodd

Bus Stop Community Partnership - tenants participated

Cronfa Gymunedol - Cefnogwyd **1** grŵp

Community Fund - group supported

## Amgylchedd Environment

Ailgylchwyd **6300kgs** o bapur swyddfa of office paper recycled

Sgôr Cyfartalog GAC TGC o'i gymharu â meincnod o 72 **74**

Average NWH SAP Score compared to benchmark of 72

## Pobl ddigartref i gartrefi Homeless into homes

wedi symud o gysgu allan i lety dros dro **65**

Moved from rough sleeping to temporary accommodation

o gysgu allan i dai diogel **13** Symudodd

Moved from rough sleeping to secure housing

So lety dros dro i dai diogel **55** Symudodd

Moved from temporary accommodation to secure housing

wasanaethau cymorth brys **226** Derbyniodd

Received emergency relief services

% cartrefi yn cwrrd â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) **99.9%**

% of homes meeting the (Welsh Housing Quality Standard) WHQS

## Cydraddoldeb Equity

% staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl **41%**

% of staff who speak fluent Welsh

Nifer y staff a gefnogir i ddysgu Cymraeg **3**

Number of staff supported to learn Welsh

Bwch cyflog rhwng y rhywiau - gwahaniaeth bwch cyflog canolrifol 2018 oedd (o'i gymharu â'r bwch canolrifol ar gyfer cymdeithasau tai Cymru o 5%) **8%**

Gender pay gap - median pay gap difference 2018 was (compared to median gap for Welsh housing associations of 5%)

## Byw Living

## Tai Housing





# Tai â Chymorth

Mae gan Tai Gogledd Cymru dîm o staff ar draws gogledd Cymru sy'n darparu cymorth a llety i bobl agored i niwed mewn sefyllfaoedd gwahanol.

Mae hyn yn cynnwys darparu llety dros dro a llety â chymorth; llety i bobl sengl digartref mewn hosteli; cyngor a chymorth i bobl ddigartref sy'n cysgu ar y stryd; gwasanaethau ailsefydlu i bobl â phroblemau iechyd meddwl hirdymor a dioddefwyr trais domestig.



Gall aelodau'r tîm wynebu sefyllfaoedd anodd ac emosiynol yn ddyddiol, ond maent bob amser yn gweithio'n galed i wneud gwahaniaeth i fywydau unigolion sy'n canfod eu hunain heb gartref neu unman arall i droi.

Mae nifer o bobl fregus wedi cael cefnogaeth yn ystod y 12 mis diwethaf, gan newid llawer o fywydau er gwell.

Gyda gwaith caled y Tîm symudwyd ymlaen pobl i lety tai cymdeithasol anghenion cyffredinol a byw'n annibynnol diolch i gefnogaeth eu gweithwyr prosiect.



## Cymryd rhan

Mae ymgysylltu yn rhan bwysig o baratoi defnyddwyr gwasanaeth Tai â Chymorth ar gyfer byw'n annibynnol a symud ymlaen yn llwyddiannus. Mae nifer o weithgareddau ymgysylltu wedi digwydd dros y flwyddyn sydd wedi helpu i wella sgiliau unigolion yn ogystal â meithrin eu lefelau hyder.

## Y digartref yn adrodd straeon bywyd go iawn am ddigartrefedd mewn drama

Mae defnyddwyr gwasanaeth o Hostel Santes Fair ym Mangor wedi bod yn cymryd rhan ym mhrosiect rhaglen gelf Lleisiau'r Stryd gyda Pontio a myfyrwyr o Ysgol Friars, Bangor.

Ymwelodd myfyrwyr â'r defnyddwyr gwasanaeth a recordio sgysiau ac yna fe'u datblygwyd yn ddrama gair am air gan y bobl ifanc o dan arweiniad y dramodydd a'r ymarferydd theatr Branwen Davies. Cyflwynwyd y ddrama yn Pontio ar ddydd Iau Mai 16 a chymerodd aelodau staff Santes Fair ran yn y perfformiad.



## Cefnogi pobl digartref

Mae Tai Gogledd Cymru yn cael ei ystyried ar draws y rhanbarth fel cyfranogwr allweddol ar gyfer darparu cymorth i bobl ddigartref

Mae ein Tîm Allgymorth ac Ailsefydlu yng Ngwynedd wrth law i ddarparu cyngor a chefnogaeth tai i bobl sy'n cysgu allan i ddod o hyd i'w llety eu hunain a'i gynnal.



Mae gennym hefyd hosteli digartref yng Nghonwy a Gwynedd sy'n darparu cefnogaeth i helpu pobl agored i niwed i fyw'n annibynnol a symud ymlaen i'w llety eu hunain.

## Gwasanaeth Giât Santes Fair

Rhan o'r cymorth a gynigir i bobl ddigartref a phobl sy'n cysgu ar y stryd ym Mangor yw'r gwasanaeth giât a gynigir gan Hostel Santes Fair. Mae'r gwasanaeth wedi darparu prydau poeth ac oer i bobl ddigartref sy'n cysgu ar y stryd ym Mangor ers 15 mlynedd, ac yn ystod y 12 mis diwethaf cafodd y gwasanaeth hwn ei ehangu o un pryd o fwyd y dydd i dri phryd y dydd yn ogystal â diodydd poeth ac oer drwy'r dydd.

Mae staff yn ymgysylltu â phob person sy'n derbyn pryd bwyd ac yn darparu cyngor a chymorth er mwyn helpu i ddatrys eu sefyllfa o ddigartrefedd. Gwnânt hyn drwy gynnig cymorth a hefyd eu cyfeirio at Adran Ddigartrefedd Cyngor Gwynedd ac at asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol amrywiol, gan gynnwys meddygfeydd meddygon teulu, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau cefnogi cyn-filwyr.

## Rhoddion yn allweddol i gynnal gwasanaethau

Ffactor allweddol sy'n sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddarparu'r gwasanaeth hwn a darparu help yw'r rhoddion rydym yn eu derbyn gan y cyhoedd a busnesau lleol. Mae'r adnoddau yn brin a heb ddillad cynnes, pebyll, sachau cysgu a rhoddion bwyd, byddai gwaith y tîm yn anoddach o lawer.

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae gan y tîm Allgymorth ac Adsefydlu berthynas waith agos hefyd gydag Eglwys Gadeiriol Bangor a Banc Bwyd Caernarfon. Mae Partneriaeth yr Eglwys Gadeiriol yn galluogi'r tîm i gynnig llety gwely a brecwast i bobl am ychydig nosweithiau os nad ydynt yn teimlo'n dda. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn i bobl â phroblemau corfforol ac iechyd meddwl, ac sydd wedi'u rhyddhau o'r ysbyty'n ddiweddar. Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan rodd breifat gan yr Eglwys Gadeiriol.



# Pobl Hŷn

Mae Tai Gogledd Cymru wedi buddsoddi mewn llety Pobl Hŷn, gan agor tri chynllun Gofal Ychwanegol ledled Gogledd Cymru ers 2013. Rydym yn falch bod ein cyfraddau deiliadaeth ym mhob un o'r tri chynllun yn parhau i fod yn uchel iawn, gydag adborth gan gwsmeriaid yn gyson gadarnhaol. Roedd 92% o breswylwyr dros 64 oed yn fodlon â'u cartref yn ôl arolwg Boddhad Preswylwyr diweddar.

Enillodd un o'n cynlluniau Gofal Ychwanegol, Cae Garnedd ym Mangor, Wobr Arian yng Ngwobrau EAC Cymru yn y categori 'Tai-gyda-gofal 41-55 uned'.

Mae'r holl opsiynau tai hyn yn galluogi preswylwyr i fyw'n annibynnol mewn cartref hawdd ei reoli, gan eu gadael yn rhydd i fwynhau bywyd gyda'r tawelwch meddwl bod cefnogaeth wrth law pan fydd ei angen arnynt.

## Gweithgareddau tenantiaid

Cynhaliwyd nifer o gyfleoedd ymgysylltu yn ein cynlluniau Pobl Hŷn, gan gynnwys Fforymau Age Connect, cyfres o ddigwyddiadau/gweithgareddau cymdeithasol fel cynhwysiant digidol ac iechyd a lles, sesiynau ymwybyddiaeth dementia a sesiynau 'Colli Clyw Cymru'.

## Gweddnewidiad gardd ar gyfer Y Gorlan

Derbyniodd Y Gorlan, Llety Lloches ym Mangor, weddnewidiad gardd ym mis Tachwedd 2018. Gwnaed yr ailwampiad mewn partneriaeth â Wild Elements, menter gymdeithasol ddielw sy'n ymroddedig i gael pobl yng ngogledd Cymru yn yr awyr agored a chysylltu pobl â natur, gwella bywydau, cyfleoedd a dyheadau. Gwnaed gwaith fel plannu bylbiau ar gyfer y Gwanwyn, adeiladu sedd garu a sawl gwely wedi'u llenwi â phlanhigion ffrwythau a pherlysiau fel rhan o Gam 1. Dewiswyd y cynllun gan Tesco ar gyfer eu Cynllun Grant 'Bags of Help' drwy gydol misoedd Mawrth ac Ebrill 2019 er mwyn ariannu cam 2 y gweddnewidiad.





## Cae Garnedd Siop Ni

Agorodd Cae Garnedd siop newydd yn y Cynllun Gofal Ychwanegol, gan werthu ystod eang o bethau o gardiau i rollo toiledau i fisgedi a siampw. Syniad ar y cyd oedd hwn rhwng Carwyn George, Rheolwr y Cynllun, y tîm gofal a'r tenantiaid. Mae'r holl elw yn mynd yn ôl i gronfa'r Preswylwyr ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.



# Ein Pobl

Mae pobl wrth wraidd popeth a wnawn ac eleni fe wnaethon ni ddatblygu Strategaeth Pobl newydd a fydd yn cael ei gweithredu dros gyfnod o dair blynedd.

Ein nod yw adeiladu a datblygu ein perthynas â staff trwy greu lle gwych i weithio ynddo - rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a rhoi llais i staff yn y modd y mae'r sefydliad yn cael ei redeg. Rydym bob amser yn anelu at ddenu a chadw gweithwyr o safon uchel sydd â chymhelliant uchel hefyd; byddwn yn parhau i wneud hyn dros y 12 mis nesaf trwy benodi pobl sy'n rhannu ein gwerthoedd.





## Llwyddiant Buddsoddwyr mewn Pobl

Roeddem yn falch iawn o dderbyn achrediad Arian Buddsoddwyr mewn Pobl eleni. Ein targed ar gyfer yr asesiad nesaf ymhen tair blynedd yw cyflawni achrediad Platinwm. Rydym wedi ffurfio grŵp o staff Buddsoddwyr Mewn Pobl sy'n gweithio'n galed i gyflawni hyn.

## Llwyddiant Sêr Yfory

Hon oedd blwyddyn gyntaf ein Rhaglen Sêr Yfory, a oedd yn rhoi cyfle i dri aelod o staff dderbyn mentora/hyfforddiant un i un, cysgodi mewn swydd a chymryd rhan mewn prosiectau ar draws y sefydliad.

Cafodd Carwyn George (Rheolwr Gofal Ychwanegol, Cae Garnedd); Hannah Dalton (Cydlunydd Cydymffurfiaeth); Ben Hamer (Swyddog Rhenti Cynorthwyol), eu dewis ac roedd yn llwyddiant ysgubol.

Cwblhaodd Sêr Yfory y 'Rhaglen Arweinwyr Newydd (ILM lefel 3)' yn ystod eu blwyddyn, yn ogystal ag ymweld â chymdeithasau tai eraill i ganfod arfer gorau, cynrychioli Tai Gogledd Cymru mewn cynadleddau a digwyddiadau recriwtio'r Brifysgol, yn ogystal â threfnu dathliad Nadolig staff. Ar ddiwedd eu cyfnod, fe wnaethant roi cyflwyniad yn y Gynhadledd Staff, gan fanylu ar eu profiad o'r flwyddyn. Yn ôl yr adborth a gafwyd, dyma oedd uchafbwynt y gynhadledd staff!





## Mynd yr Ail Filtir

Hefyd eleni mi wnaethon ni adfywio'r cynllun gwobrwyo staff cyflogedig, sef Gwobr yr Ail Filtir. Bob mis mae staff cyflogedig yn enwebu cydweithwyr y maent hwy'n credu sydd wedi mynd y filltir ychwanegol. Amlygodd y cynllun hwn waith rhagorol gan unigolion ar draws y sefydliad, gwaith na fyddai fel arall wedi cael ei gydnabod. Mae enillwyr y wobwr yn derbyn talebau a thystysgrif o gydnabyddiaeth bob mis.

## Syniadau ac awgrymiadau

Gofynnir i weithwyr gyflwyno syniadau ac awgrymiadau bob mis a fydd yn gwella Tai Gogledd Cymru. Mae rhai o'r awgrymiadau a weithredwyd yn cynnwys ffrwythau i staff fel rhan o'n hymgyrch lechyd a Lles, yn ogystal â thudalen Facebook ar wahân ar gyfer ein hadran Pobl Hŷn.

## Cynhadledd Staff

Cawsom ein Cynhadledd Staff gyntaf mewn 3 blynedd eleni, cyfle prin i'r holl staff ddod at ei gilydd. Roedd adborth staff ar ôl y gynhadledd yn amlygu mai hon oedd y gynhadledd orau iddynt ei mynychu; oedd yn newyddion gwych gan fod hon wedi'i threfnu'n fewnol! Diweddarodd y Gynhadledd y staff ar ein cyfeiriad i'r dyfodol, ynghyd â chyfle iddynt gael dweud eu dweud.



## Gweithio gyda'n gilydd er mwyn elusen

Bob blwyddyn mae Tai Gogledd Cymru yn dewis elusen ac mae staff yn dod at ei gilydd i godi arian.

Rydym wedi codi cyfanswm o £3,752, i'w rannu rhwng dwy elusen, sef Createasmile ac i brynu CuddleCot ar gyfer Ysbyty Gwynedd, Bangor.




## Grwpiau Gweithio

Mae gan staff nifer o gyfleoedd i gymryd rhan a dweud eu dweud. Mae yna nifer o grwpiau sy'n galluogi hyn. Mae hyn yn cynnwys y Grŵp Cymraeg, Grŵp Buddsoddwyr mewn Pobl a Grŵp Trawsnewid Digidol. Mae'r grŵp Digidol hefyd yn cynnwys tenantiaid, sy'n ffordd dda i staff a thenantiaid ddod i adnabod ei gilydd.



## Iechyd a Lles

Sefydlwyd grŵp Iechyd a Lles eleni. Bydd y Grŵp yn gweithio ar y cyd gyda'r Tîm Pobl i ddatblygu rhaglen lles ar gyfer Tai Gogledd Cymru. Bydd y grŵp yn cyd-fynd â'n Strategaeth Pobl a Buddsoddwyr Mewn Pobl a hoffem i bobl gymryd rhan o bob rhan o'r sefydliad.



Mae Tai Gogledd Cymru yn awyddus i gydnabod a gwerthfawrogi'r amrywiaeth sy'n bodoli ac yn esblygu yn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Gyda golwg ar ein cartrefi, ein gwasanaethau a'n swyddi, rydym yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw rwystrau sy'n cau pobl allan, a'n bod yn gweithredu yn agored, yn deg, yn onest a chyda parch. Isod gallwch weld ein proffeil Amrywiaeth Staff.


# Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

## Gwlad Enedigol



DU 97% UE 1%  
Gweddill y byd 1%  
Heb ateb 1%


## Tueddiad rhywiol




Oes  
41%

Na  
59%


Siaradwyr  
Cymraeg Rhugl




## Tarddiad Ethnic




## Rhywedd




## Anabledd



## Oed



## Crefydd





## Bwrdd Grŵp

Tom Murtha, Cadeirydd

William (Bill) Farnell, Is-Cadeirydd

Janet Roberts

Christopher Taylor

Ian Alderson

Carol Downes

Dylan James

Sian Williams

# Llywodraethiant

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni llywodraethiant dda yn Tai Gogledd Cymru ac i gydymffurfio â Chod Llywodraethiant Tai Cymunedol Cymru. Mae'r cod wedi'i fwriadu i helpu asiantaethau tai ddatblygu strwythurau llywodraethiant da ac i gefnogi gwelliant parhaus.

Mae gennym 8 Aelod Bwrdd. Maent yn gyfrifol am ddarparu cyfeiriad strategol ein sefydliad. Mae aelodau ein bwrdd wedi cael eu dewis am yr ystod a'r amrywiaeth o sgiliau y maent yn eu cynnig yn ogystal â'u profiad, sy'n caniatáu iddynt herio a chraffu yn effeithiol.

## Cadeirydd TGC yn cipio gwobr cyflawniad oes

Mae Tom Murtha, Cadeirydd Tai Gogledd Cymru, wedi ennill y wobwr cyflawniad oes yng Ngwobrau Amrywiaeth 24 Housing 2018. Cafodd y seremoni fawreddog ei chynnal yng Nghlwb Pêl-droed Aston Villa, Birmingham ar y 10fed o fis Mai. Wrth gyflwyno'r wobwr, dywedodd panel y beirniaid fod rhestr cyflawniadau Tom 'mor hir â'ch braich' a'i fod yn gosod esiamp l dda.

## Dyfarniad Rheoleiddio Cadarnhaol

Mae Tai Gogledd Cymru wedi derbyn y statws uchaf posib yn ei dyfarniad rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru eleni.

Ar ôl wynebu nifer o flynyddoedd heriol mae'r dyfarniad yn dangos ein bod ni yn ôl ar y trywydd cywir ac yn wynebu'r dyfodol gyda sicrwydd.

## Penodi Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Newydd

Mae Jayne Owen wedi ymuno â ni fel Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau newydd eleni. Mae Jayne yn gyfrifydd cymwysedig (CIPFA) gyda 30 mlynedd o brofiad yn y sector cyhoeddus, 5 mlynedd fel Trysorydd/Cyfarwyddwr Cyllid a chyn cychwyn yn y swydd hon Jayne oedd Cyfarwyddwr Cyllid (Heddlu a Throsedd) Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf. Mae hyn a'i swyddi blaenorol wedi cynnwys cymhlethdod sylweddol, gydag atebolrwydd am gyllidebau gwerth miliynau a chynghori ar ddefnyddio'r adnoddau hyn. Mae ei meysydd arbenigedd yn cynnwys rheolaeth trysorlys, cynllunio cyllidol, archwilio, caffael, comisiynu, gwerth am arian, trawsnewidiad sefydliadol a llywodraethiant effeithiol. Cyn dechrau'r swydd yma roedd Jayne wedi gweithio fel Trysorydd i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Manceinion Fwyaf a chyn hynny bu mewn swyddi amrywiol gyda Chyngor Trafford, mae'n cynnig ystod o brofiad sy'n mynd tu hwnt i'w harbenigedd cyllidol yn enwedig, diwygio gwasanaethau cyhoeddus, gweithio mewn partneriaeth, strategaeth ystadau a rheoli perfformiad. Mae gyrfa Jayne wedi'i wreiddio yn y sector cyhoeddus, gan ymwneud yn sylweddol gyda rôl y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol, a mentrau cymdeithasol mewn cymdeithas.



## Ein perfformiad yn 2018/2019



Llwyddodd **99.95%** o'n heiddo i basio Safon Ansawdd Tai Cymru

Cafodd ychydig o dan **10,000 o dasgau atgyweirio** atgyweirio eu codi a'u cwblhau


Mae **83% o'r tenantiaid** yn dweud bod y rhent yn darparu gwerth am arian

Cymerodd **35 diwrnod** i brydlesu eiddo ar gyfartaledd


Cafodd ffenestri a drysau newydd eu gosod mewn **315** eiddo

Cafodd **258 ystafell ymolchi** eu gosod

Gosodwyd **16 cegin newydd**



## Perfformiad Ariannol: Crynodeb o'r Incwm



### Incwm


£(000)

Rhenti	£12,200
Incwm taliadau gwasanaeth a gwasanaethau cefnogol	£2,924
Grantiau	£940
Arall	£354

### Cyfanswm

**£16,418**

## Perfformiad Ariannol: Crynodeb o'r Gwariant



### Gwariant

£(000)

Costau rheoli	£2,161
Gwariant taliadau gwasanaeth	£3,747
Cynnal a chadw	£2,804
Dibrisiant	£2,816
Llog	£2,901
Arall	£158
Gwarged	£1,831

### Cyfanswm

**£16,418**

Incwm Cynhwysfawr arall	£2,505
Cyfanswm Incwm Cynhwysfawr am y flwyddyn	£(674)
Gwariant gwaith trwsio sylweddol a datblygu wedi'i gyfalafu	£4,138





## Ymholiad?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu adborth am yr Adolygiad Blynyddol hwn cysylltwch â ni ar:

[customerservices@nwha.org.uk](mailto:customerservices@nwha.org.uk)  
01492 572727

[www.nwha.org.uk](http://www.nwha.org.uk)

[@northwalesha](https://twitter.com/northwalesha)

[/northwaleshousing](https://www.facebook.com/northwaleshousing)

Plas Blodwel  
Broad Street  
Cyffordd Llandudno  
Conwy  
LL31 9HL